

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWDYD A'R NOS LUN 26AIN O ORFFENNAF 2021 TRWY "MICROSOFT TEAMS" AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Arwel Davies, Philip Williams, Stanley Williams ynghyd a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Bari Evans, Ceri Davies, Falmai Evans, Geraint Jones, Hywel Davies ynghyd a'r Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch.

3. DDATGAN DIDDORDEB: Dim yn codi.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 28ain o Fehefin 2021 gan y Cynghorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae'r Cyngor Sir Ddinbych yn edrych i mewn i'r canlynol canlynol:-

1. Eisiau arwydd ar y ffordd Prion i Saron cyn trosiad Ysgol Pant Pastynog yn hysbysu'r Ysgol Pant Pastynog.

2. Ffordd heibio Pen Caed yn Saron eisiau gwaith thrwsio.

3. Dim marciau "Ildiwch" ar y gyffordd wrth Efail-y-Gro, Prion.

B. Mae'r Cyngor Cymuned yn dal i ddisgwyl ymateb Swyddogion Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych (trwy law'r Cynghorydd Sir Ddinbych, Joe Welch) sydd yn edrych i mewn ar waith answyddogol sydd wedi cychwyn ar y ddau safle presennol yn ddiweddar:-

1: Llyn Pysgota Cae'r Mynydd yn Saron.

2. Cyn Eglwys Prion ym Mhant Pastynog.

6. SEDD WAG Y CYNGOR.

Derbyniwyd adroddiad y Clerc nid oedd yna unrhyw gais wedi ei dderbyn i lenwi'r sedd wag y Cyngor ac mi fydd yr hysbyseb y Cyngor i'r sedd wag yn dal yn bodoli.

7. ADRODDIAD DIWEDDARAF "BROADBAND BROADWAY".

Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd yn cadarnhau Llywodraeth newydd Cynulliad Cymru, yn dilyn etholiadau'r Cynulliad ar 6ed o Fai 2021 wedi cadarnhau'r grant o £1,500 i bob preswyl a £3,000 i bob busnes sydd angen band eang cyn bwrw ymlaen gyda'r prosiect.

Mi fydd cyfarfod cyd nesaf gyda "Broadband Broadway" a Chyngor Cymuned Cyffylliog ar nos Fawrth 10fed o Awst 2021 am 6.00 o'r gloch true gyfrwng Zoom.

8. DIWEDDARAF MATERION "COFID-19" YN Y GYMUNED.

Dim newidiadau ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.

9. MATERION CYLLID.

Datganiad Banc £10,914.00.

10. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A: Cais Cynllunio 23/2021/0721 – Codi sied amaethyddol newydd yn lle'r un sydd ar y safle yn bresennol yn Llwyn Celyn, Llanrhaeadr – dim gwrthwynebiad.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu cais cynllunio 23/2021/0270 - Gosod 4 goleuadau to, ffurfio agoriad ffenestri llawr cyntaf ychwanegol, addasiadau mewnol a gwaith cysylltiedig (cais Adeilad Rhestredig) yn Groes Gwta, Prion.

11. GOHEBIAETH.

A. derbyniwyd cais am bin ysbwriel cyhoeddus ar y cilfa'n wrth "Bontgarreg Cottages".
Derbyniwyd fod y lleoliad o fewn Cyngor Cymuned Llanynys.

B. Derbyniwyd y canlynol er wybodaeth oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych:-

1. Nodyn atgoffa bod yr arolwg ar-lein parhau gyda sgwrs y Sir yn dod ar ben ar y 31ain o Orffennaf 2021.
2. Cronfa Perchnogaeth Gymunedol – sesiwn gwybodaeth ac ateb.
3. Coedwigaeth Genedlaethol i Gymru – Grant Buddsoddi mewn Coetir.

12. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Nid oedd y Cyngorydd Sir Ddinbych, Joe Welch yn bresennol yn y cyfarfod.

13. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Mae'r ffordd heibio Rossa Bach, Prion eisiau ei thrwsio cyn gynted â phosib.

B. Mae'r fainc gyhoeddus yn stad Bodafon wedi symud o'r lleoliad.

C. Mae'r Cadeirydd yn edrych i mewn i'r sefyllfa "Trafnidiaeth Clwstwr" i'r Ysgol Glan Clwyd o Lanrhaeadr gyda'r Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych.

14. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 27AIN O FEDI 2021 AM 7.30 O'R GLOCH.